

Helpforce Cymru 2019-21 Adroddiad effaith

Ebrill 2022

Mae Helpu Cymru yn gweithio gyda TSSW, Llywodraeth Cymru ac eraill i ddatblygu potensial gwirfoddoli i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ei nod yw cryfhau'r hyn sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal ag annog rolau gwirfoddoli newydd sy'n cael effaith.

Mae'n hyrwyddo gwasanaethau cydgysylltiedig a gwirfoddoli cydgysylltiedig.

Mae'n ceisio 'ymwreiddio' gwirfoddoli mewn cynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol.

Gwnaeth Helplu Cymru ddechrau gyda grant sefydlu gan Helplu (Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol). Mae wedi gweithio'n agos gydag Helplu ar brosiectau penodol ledled y DU.

Mae hefyd wedi datblygu a gweithredu prosiectau yng Nghymru mewn ymateb i angen a chyfle lleol, gydag arweiniad grŵp llywio Helplu Cymru a chymorth Llywodraeth Cymru.

Caiff Helplu Cymru ei gyd-gadeirio gan
Fran Targett OBE, Comisiynydd Bevan ac Is-gadeirydd CGGC
a Mary Cowern, Comisiynydd Bevan

- 1** Gwnaethom gydgynhyrchu [Siarter cydberthnasau gwirfoddoli a'r gweithle](#) newydd er mwyn cael dealltwriaeth well o sut gall gwirfoddolwyr fod yn rhan hanfodol o weithlu cymhleth, heb danseilio rolau staff na safonau proffesiynol.
- 2** Gwnaethom weithio gyda thri Bwrdd Iechyd i ddatblygu gwasanaethau cydymaith gwirfoddol newydd er mwyn gwerthuso a sefydlu rôl gwirfoddoli o fewn gofal diwedd oes.
- 3** Cafodd cynllun, partner cyflenwi a chyllid eu nodi gennym i ddatblygu model ar gyfer gwirfoddoli o fewn cartrefi gofal, er mwyn galluogi ymweliadau yn ystod COVID-19.

- 4** Gwnaethom gyd-gynhyrchu [Fframwaith ar gyfer Gwirfoddoli ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol](#) er mwyn ymwreiddio gwirfoddoli o fewn 'ecosystemau' cynllunio, cyflenwi a chynorthwyo lleol.
- 5** Cynhyrchwyd taflen wybodaeth gennym, 'Gwirfoddoli ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol: safonau ac adnoddau dysgu', er mwyn darparu cyfeiriad cyffredin ar gyfer cynefino a hyfforddi gwirfoddolwyr a sail ar gyfer datblygiad wedi'i achredu.
- 6** Gwnaethom lansio rhaglen beilota 'Gwirfoddoli i Yrfa' er mwyn datblygu cysylltiadau rhwng gwirfoddoli o fewn y GIG a datblygu gyrfa.

helplu

helpforce

1. Siarter cydberthnasau gwirfoddoli a'r gweithle

Gwnaethom weithio gyda TUC Cymru, gan ymgynghori â'n rhwydweithiau perthnasol ehangach i gytuno ar y [Charter](#), sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer gwirfoddoli llwyddiannus a chydberthnasau cadarnhaol yn y gweithle.

Cafodd ei lansio gan Ruth Marks CGGC, Shavanah Taj a Hannah Blythyn MS ym mis Mawrth 2020.



1. Siarter cydberthnasau gwirfoddoli a'r gweithle

'Rydym, fel mudiad, wedi ein cefnogi gan ddeddfwriaeth i weithio mewn ffyrdd newydd gyda'n cymunedau. Mae'r siarter yn caniatáu i ni ailedrych ar ychydig o'r cyngor a'r canllawiau sydd ar gael ac yn caniatáu i swyddogion fel fi herio penderfyniadau sy'n cael eu gwneud'.

**Owen Wilce, Arwienydd Gwirfoddoli,
Cyngor Sir Fynwy**

'Bydd yn ein helpu ni i ymwreiddio ychydig o lywodraethu da iawn a dathlu'r gwerth ychwanegol y mae gwirfoddolwyr yn ei gyflwyno i'r gwasanaeth iechyd – ac i wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei wneud mewn modd diogel a strwythuredig, gan gefnogi gwirfoddolwyr a chefnogi a diogelu rôl staff cyflogedig hefyd'.

**Angela Hughes, Cyfarwyddwr
Cynorthwyo Profiad y Claf, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

2. Gwirfoddoli mewn gofal diwedd oes

Bu tri phrosiect peilot gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn rhan o garfan o saith prosiect yn y DU a gefnogwyd gan Helplu a Marie Curie. Cafodd pob un ohonynt eu herio'n enfawr gan COVID-19 - symudodd dau brosiect i gynnig cymorth cydymaith rhithiol yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

Mae'r allbynnau cyhoeddedig ar y [wefan](#), gan gynnwys canllawiau gwasanaeth, astudiaethau achos ac [Adroddiad ar brosiect y DU \(Saesneg yn unig\)](#). Mae'r holl Fyrddau Iechyd yn cynllunio ar gyfer datblygiad parhaus y gwasanaethau gwirfoddol hyn.



2. Gwirfoddoli mewn gofal diwedd oes

Cyn yr ymweliad, dywedais “os alla’ i roi gwên ar wyneb Margaret fe fydda’ i’n teimlo fy mod wedi gwneud gwahaniaeth heddiw”. Gyda’ m hiwniform arno, fe wnes i alw fy ymweliad cyntaf.

‘Nid oedd Margaret yn ymatebol iawn yn ystod y munudau cyntaf. Roedd hi’n dwli ar anifeiliaid, felly gofynnais a hoffai gwrdd â’ m ci – atebodd y byddai. Cyflwynais fy nghi, a edrychodd yn syth at y sgrin a’ i lyfu. Rhoddodd hyn wên fawr ar wyneb Margaret ar unwaith a chwarddodd. Dyna’ r cwbl oedd ei angen a chawson ni sgwrs hir braf wedyn.

‘Sylwais fod Margaret yn dechrau blino, felly fe wnes i ddod â’ r sgwrs i ben gan awgrymu ei bod hi’n amser am baned o de a chacen.

‘Ar ôl i’ r ymweliad ddod i ben, roeddwn i’n teimlo’n dda iawn o wybod fy mod wedi rhoi gwên ar wyneb Margaret. Llwyddais i gael sgwrs â hi, ond fe wnes i hefyd sylwi pan oedd hi’n dechrau blino.’

Cydymaith Gwirfoddol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

3. Gwirfoddoli mewn cartrefi gofal



Daeth Arolygiaeth Gofal Cymru atom ni ym mis Rhagfyr 2020 i gael help gwirfoddolwyr er mwyn galluogi ymweliadau i gartrefi gofal yn ystod y pandemig.

Gwnaethom gynnwys rhanddeiliaid ehangach a llunio cynllun i fynd i'r afael â'r argyfwng dybryd a gadael etifeddiaeth i adeiladu arni: model gweithredol ar gyfer gwirfoddoli a chanllawiau i'w alluogi i gael ei fabwysiadu ym manau eraill.

Gweithiodd Age Cymru gyda 7 cartref gofal peilot i gyflwyno gwirfoddolwyr i helpu gydag ymweliadau. Mae [adroddiad a phhecyn cymorth](#) ar gael.

Rydyn ni'n gweithio gyda Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint i werthuso gwirfoddoli mewn cartrefi gofal yn Sir y Fflint.

3. Gwirfoddoli mewn cartrefi gofal

'Mae gweld a sylweddoli pa mor brysur a pha mor frwdfrydig ac ymroddgar y mae'r holl staff gofal wedi bod yn agoriad llygad go iawn. Gall unrhyw beth y gallwn ni ei wneud, waeth pa mor fach, ysgafnhau eu baich, hyd yn oed os yw'n ddim mwy na rhoi cyfle iddyn nhw fynd i wneud paned o de.'

Gwirfoddolwr

'Roedd preswylwyr yn gaeth i'w hystafelloedd ar ôl i Covid-19 daro. Mae ansawdd bywyd wedi dirywio'n fawr ac mae bywyd yn ddiflas i lawer. Mae prosiect gwirfoddoli yn bwysicach fyth ar adeg fel hon - hyd yn oed i ddim ond bod yno i gyfarfod a chyfarch ymwelwyr. Mae'n cynnig ymgysylltiad a mewnwleidiad i unrhyw un sy'n poeni am sut rydym yn gofalu am ein pobl hŷn'

Sarah Reed - ymgynghorydd gydag Age Cymru

4. Fframwaith ar gyfer gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol



Datblygwyd yr [adnodd cynhwysfawr, rhyngweithiol](#) hwn gyda Chomisiwn Bevan, Gofal Cymdeithasol Cymru a Richard Newton Consulting, er mwyn cynorthwyo mudiadau i 'gynnal y budd' a brofwyd yn ystod y pandemig.

Mae'n edrych ar chwe chwestiwn cyffredin o safbwynt pedair cynulleidfa, gan gynnig myfyrdodau ar ymarfer a chyfeiriadau at ragor o wybodaeth a fideos o astudiaethau achos.

Mae'n cynnwys hunanasesu i gefnogi datblygiad mudiadau.

4. Fframwaith ar gyfer gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Gwnaeth **164** o bobl fynychu grwpiau ffocws
Cwblhaodd **107** o bobl ein harolwg

'Rwy'n credu bod y fframwaith hwn, efallai, yn rhoi cipolwg i ni ar y mathau hynny o gynulleidfaoedd amrywiol rydyn ni weithiau'n rhan ohonyn nhw.'

Cyfranogwr grŵp ffocws CVC

'Rwy'n credu ei bod hi'n amser da i'r sector gwirfoddol weithio gyda phartneriaid a chomisiynwyr gwasanaethau eraill, yn enwedig yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol ... rydyn ni wedi tyfu cryn dipyn o ran y gwerth sy'n cael ei roi ar yr hyn y gallwn ni ei gyflawni'

Cyfranogwr grŵp ffocws

'Hoffwn ganmol y Fframwaith hwn, yr wyf yn gwybod y bydd yn cyflwyno goblygiadau pellgyrhaeddol i CGGC a hefyd i'r mudiadau hynny sy'n awyddus i ymwreiddio'r holl ddysgu'

Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



4.0 Gwirfoddolwyr

Gwirfoddoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Safonau ac Adnoddau Dysgu

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn
3. Safonau Craidd:
 - Eich Rôl a'ch Cyfrifoldebau
 - Cyfathrebu
 - Parch at Bawb
 - Diogelu
 - Iechyd Meddwl, Dementia, ac Anabledd Dysgu
 - Iechyd a Diogelwch
4. Safonau Ychwanegol:
 - Hylifau a Maeth
 - Cymorth Bywyd Sylfaenol (BLS)
 - Symud a Chynorthwyo
5. Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safonau
6. Adnoddau Eraill
7. Manylion Darparwyr Dysgu Allweddol

Yng Nghymru, gwnaethom brofi'r safonau gwirfoddolwyr a ddatblygwyd gydag Helplu a phartneriaid yn Lloegr.

Mae'r rhain yn sylfaen i hwb dysgu ac achrediad yn Lloegr. Canfu'n fuan iawn na fyddai'r rhain yn diwallu ein hanghenion yn ddigonol yng Nghymru.

Yn hytrach, gwnaethon ni weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, AaGIC a GIG Cymru a chyhoeddi'r safonau fel [taflen wybodaeth](#), sy'n cynnwys dolenni i'r adnoddau dysgu perthnasol ar-lein.

6. Gwirfoddoli i yrfa

'Mae cyfleoedd posibl i ddod â gwirfoddolwyr i mewn i brofi sut beth yw hi i weithio o fewn lleoliadau iechyd, o fewn lleoliadau gofal cymdeithasol, a gallai fod yn fodd o brofi'r dŵr a allai eu harwain at feddwl, wyddoch chi be'? Fyddai'r yrfa hon ddim yn ddrwg o beth'
Staff Bwrdd Iechyd – cyfranogwr grŵp ffocws'

**Staff Bwrdd Iechyd
– cyfranogwr grŵp ffocws**

Gwnaethom weithio gyda Helplu a Chomisiwn Bevan i ddatblygu model prosiect a chynnig ar gyfer prosiectau peilot yng Nghymru.

Y nod oedd adnabod arweinwyr clinigol y GIG sydd â diddordeb mewn datblygu cyfleoedd gwirfoddoli, yn ogystal â chreu llwybrau i yrfaedd ym maes iechyd a gofal.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cael cyllid grant i ddatblygu llwybrau 'gwirfoddoli i yrfa' sy'n seiliedig ar gyfeillio ar wardiau, fel rhan o garfan o brosiectau peilot DU gyfan.

Cyhoeddi canllawiau ar gyfer sectorau gwahanol

Dod o hyd i ffeithiau ac ymgynghori - cyd-gynhyrchu datrysiadau

Ymholiadau gan unigolion a mudiadau cenedlaethol a lleol

Cyfrannu at drafodaeth a chyfathrebiadau ar bolisi cenedlaethol

Cysylltu/cyfnewid gwybodaeth â chyrrff y DU

Casglu astudiaethau achos

Addasu cynlluniau prosiect, e.e. prosiectau gofal diwedd oes

Cefnogi gwaith ymchwil ar wirfoddoli a'r pandemig

‘Mae’r holl waith rydych chi wedi’i wneud fel rhan o’r ymateb brys i’r pandemig wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Rydych chi hefyd wedi parhau i ddal ati i gyflwyno dulliau mwy arloesol drwy Helpu a nawr y fframwaith ar gyfer gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sy’n arwain at ddatblygiadau pwysig.’

Anna Nicholl, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu’r Sector, CGGC

445

unigolion yn cael diweddariadau postio

21

cyhoeddi blogiau

15

cynhyrchu fideos

16

cyhoeddi astudiaethau achos

11

digwyddiadau cyhoeddus

8

cyfrannu at ymatebion i ymgynghoriadau



‘Ymddengys fod gan CGGC gysylltiadau da iawn â mudiadau’r trydydd sector, Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Rwyf wastad yn gadael cyfarfodydd wedi dysgu llawer am beilot, gwasanaeth neu gyfle cyllido newydd.

‘Mae cyfarfodydd a chyfathrebiadau a gynhelir gan CGGC bob amser yn agored, yn gyfredol a chydag ymdeimlad o gynhwysiant, a ddangosir gan y ffaith bod mudiadau yn hapus i rannu’r wybodaeth a’r adnoddau y maen nhw wedi’u datblygu’.

Gyda chyllid parhaus, bydd Helplu Cymru yn adeiladu ar y gwaith hwn drwy

- gefnogi'r gwaith o 'fabwysiadu a lledaenu' rolau gwirfoddoli sydd wedi'u peilota'n llwyddiannus, gan gynnwys gofal diwedd oes a gwirfoddoli mewn cartrefi gofal
- edrych ar sut gall gwirfoddoli gysylltu ag agenda'r gweithlu a gyda chyfleoedd gyrfaol ym maes iechyd a gofal
- Defnyddio'r Fframwaith i ysgogi sgysiau a datblygu cynlluniau ac adnoddau gwirfoddoli mwy integredig

WcVA

CgGC

Fiona Liddell
Helpforce Cymru Manager
fliddell@wcva.cymru
wcva.cymru/helpforcecymru



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government



helplu

helpforce